

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016.

**Pwrpas y gyfraith hon yw gwella
llesiant pobl, yn enwedig y rhai sydd
angen gofal a chymorth, a gofaluwr
sydd angen cymorth.**

Mae'r Ddeddf yn esbonio mai llesiant yw:

- Gwybod am eich hawliau a deall beth maent yn ei olygu i chi
- Bod yn iach
- Cael eich diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- Mynediad at addysg, hyfforddiant, chwaraeon a hamdden
- Perthynas gadarnhaol gyda theulu a ffrindiau
- Bod yn rhan o'r gymuned
- Cael bywyd cymdeithasol
- Cartref saff a diogel

Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o hawliau ac mae'n bwysig i chi wybod amdanynt a'u deall. Rydym yn esbonio'r rhain ar y tudalennau nesaf:

Yr hawl i lesiant

Mae'r egwyddor **llesiant** yn ganolog i'r Ddeddf.

Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol, eich bwrdd iechyd lleol a Gweinidogion Cymru hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.



Yr hawl i wybodaeth, help a chyngor

Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth, help a chyngor ynglŷn â gwasanaethau gofal a chymorth, ac mae angen i hyn fod ar gael i chi yn hawdd ac yn hwylus.

Yr hawl i asesiad os na ellir bodloni eich anghenion drwy wybodaeth a chyngor



Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol gynnal asesiad ar gyfer unrhyw berson, a **allai** fod angen gofal a chymorth.

Mae asesiad yn ffordd o ganfod pa help sydd ei angen arnoch.

Nid yw'r swm o arian sydd gennych yn effeithio ar eich hawl i gael asesiad, ond efallai y gofynnir i chi gyfrannu at gost eich gofal a'ch cymorth.

Yr hawl i gael eich clywed a chael rheolaeth dros benderfyniadau am eich gofal

Yn ystod eich asesiad, mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol ofyn i chi **beth sy'n bwysig i chi** a'ch cynnwys ym mhob penderfyniad am eich gofal a'ch cymorth. Gallwch ofyn i ffrind neu aelod o'r teulu fod gyda chi i'ch helpu gyda'r asesiad hwn.



Yr hawl i gael eiriolwr

Os nad ydych chi'ch hun yn gallu cymryd rhan lawn yn y trafodaethau, bydd eiriolwr yn gallu helpu i wneud yn siŵr bod eich barn yn cael ei chlywed pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am eich cymorth.

Rhaid i eiriolwr **annibynnol** gael ei drefnu os nad ydych yn gallu siarad drosoch eich hun neu os nad oes gennych neb i'ch helpu i fynegi eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau.



Llinellau Gwybodaeth, Help a Chyngor Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol



**Gwasanaethau Cymdeithasol
i Oedolion Abertawe:**
01792 636519

**Gwasanaethau Cymdeithasol
Sir Benfro:** 01437 764551

**Hwb Gwybodaeth, Cyngor
a Chymorth Gwasanaethau
Cymdeithasol i Oedolion
Blaenau Gwent:** 01495 315700

**Canolfan Gyswllt Bro
Morgannwg:** 01446 700111

**Canolfan Cyswllt Cyntaf
Caerdydd – Gwasanaeth
Byw'n Annibynnol:**
02920 234234

**Gwybodaeth, Cyngor a
Chymorth Gwasanaethau
Cymdeithasol i Oedolion
Caerffili:** 0808 100 2500

**Hwb Gwasanaethau
Cymdeithasol Casnewydd:**
01633 656656

**Gwasanaethau Cymdeithasol
Ceredigion:** 01545 574000

**Un Pwynt Mynediad –
Gwasanaethau Cymdeithasol i
Oedolion Conwy:** 0300 456 1111

**Un Pwynt Mynediad –
Gwasanaethau Cymdeithasol
a Iechyd i Oedolion
Sir Ddinbych:** 0300 456 1000

Cyngor Sir Fynwy:
01633 644644

**Un Pwynt Mynediad –
Gwasanaethau Cymdeithasol i
Oedolion Sir y Fflint:**
01352 803444

Llesiant Delta Sir Gaerfyrddin:
0300 333 2222 (24 awr)

**Gwasanaeth Gwybodaeth,
Cyngor a Chymorth – Gofal
Cymdeithasol a Iechyd i
Oedolion Gwynedd:**

- Ardal Llŷn: 01758 704099
- Ardal Caernarfon:
01286 679099
- Ardal Bangor: 01248 363240
- Eifionydd a Gogledd
Meirionnydd: 01766 510300
- De Meirionnydd:
01341 424499

**Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful:**
01685 725000

**Pwynt Mynediad Cyffredin –
Gwasanaethau Cymdeithasol
Pen-y-bont ar Ogwr:**
01656 642279

**Porth Castell-nedd Port
Talbot:** 01639 686802

Llinell Uniongyrchol Powys:
01597 827666

**Gwasanaethau Cymdeithasol
i Oedolion Rhondda Cynon
Taf:** 01443 425003

**Cyngor Bwrdeistref Sirol
Torfaen:** 01495 762200

**Gwasanaethau Cymdeithasol
i Oedolion Wrecsam:**
01978 292066

**Un Pwynt Mynediad –
Gwasanaethau Cymdeithasol
Ynys Môn:** 01248 752736

Cysylltiadau defnyddiol eraill

Age Cymru:

Gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n effeithio ar y rhai
dros 50 oed yng Nghymru.

08000 223 444

www.agecymru.org.uk/advice

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

Yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn yng Nghymru.

03442 640670 / 02920 445030

www.olderpeoplewales.com/wl